

Bywyd yn annheg

“Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd.” (adn. 33)

Beth am ddarlenn Ioan 16:17–33 ac yna myfyrio

Fel y dywedwyd eisoes, er efallai bod ein poen yn dod o gyfeiriad digon drwg y tu allan i'n hewyllys ein hunain, ni ddylem ofidio yn gymaint o ble y daw'r boen ond yn hytrach i ble mae'r boen yma'n fy arwain? Yn anffodus, mae llawer o bobl yn cael anhawster mawr i ddod i delerau â'u poen oherwydd y maent yn dadlau fel hyn gyda'u hunain, “Mae hyn yn anghyfiawn. Ni wneuthum unrhyw beth i ddwyn y boen yma arnaf fy hun, felly pam fod yn rhaid i mi ei hwynebu?” Yn sicr, mewn amryw o achosion fe fydd y boen yn anghyfiawn ond nid yw'r Ysgrythur yn ein dysgu y dylem ddisgwyl cyfiawnder yn ein bywyd. Nid yw Cristnogaeth yn dysgu hynny. Yn wir, ynghanol yr Efengyl mae yna groes – ar y groes mae anghyfiawnder y byd yn cael ei arddangos fwyaf. Yr ydym yn byw mewn byd sydd ag ôl y cwmp ym amlwg arno ac fe ddylem weddio, nid yn gymaint am gyfiawnder mewn bywyd ond yn hytrach am fedru troi anghyfiawnder yn ddaioni. O weddio felly fe fyddwn yn profi rhywbeth mwy na chyfiawnder – fe fyddwn yn profi bendith Duw.

Nid oedd bywyd yn gyfiawn i'r Apostol Paul. Fe fu iddo ddarganfod fod bywyd yn dod â phob math o anawsterau – carchar, fflangellu, pobl yn ei adael, gofid, ac yn y blaen. Nid oedd yn gyfiawn. Ond bu iddo ddarganfod rhywbeth mwy na chyfiawnder. Yn Rhufeiniad 8:28 fe ddywed: “...ymhob peth, mae Duw yn gweithio er daioni i'r rhai sydd yn ei garu.” Nid oedd y pethau a ddigwyddodd iddo yn dda; roedd rhai o'r pethau yn arfau o du y diafol ei hunan. Ond, bu i Dduw yn ei drugaredd beri fod y cyfan i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddwyn patrwm o ddaioni oedd yn dwyn gogoniant iddo ef ac yn gymorth i daith ysbrydol yr Apostol.

Yn fynych iawn, mae olwynion rhagluniaeth yn troi o'n plaid ac yn ein herbyn. Onid yw'n wir efallai, o bryd i'w gilydd, fod Duw yn defnyddio'r pethau hynny sy'n boenus er mwyn delio â phoen hyd yn oed? Nid ein gweddi ni yw “Arglwydd, dwi am fyw mewn bywyd ac mewn byd lle mae popeth yn iawn”, ond yn hytrach, “Arglwydd, cynorthwya fi mewn byd lle nad yw popeth yn iawn i droi popeth yn berl o wers ysbrydol i'm symud tuag atat ti.”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 45:3–13; 1 Pedr. 2:18–25

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y bu i amgylchiadau anodd Joseff droi yn ddaioni?
2. Sut y bu i Iesu wynebu dioddefaint anghyfiawn?

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, daethost i mewn i'n byd syrthiedig ni gan ddangos inni sut mae troi pob anhawster yn gyfle. Cynorthwya fi yn hytrach na chwyno am gyfiawnder i lefain am ras i ddilyn dy esiampl di. Amen.